



Home Office

Cryfhau grymoedd yr heddlu i daclo gwersylloedd heb ganiatâd

Ymgynghoriad Llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 05/11/2019

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 05/03/2020

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd.

Byddwn yn awyddus iawn i glywed gan awdurdodau lleol, lluoedd heddlu, cymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Hyd: O 05/11/2019 hyd 05/03/2020

Ymholiadau at: Strengthening police powers to tackle unauthorised encampments consultation
Police Powers Unit
Home Office
6th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

E-bost:

UnauthorisedEncampmentsConsultation@homeoffice.gov.uk

Sut i ymateb: Rhowch eich ymateb erbyn 05/03/2020 yn:

www.gov.uk/government/consultations/strengthening-police-powers-to-tackle-unauthorised-encampments

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod chi'n defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon trwy e-bost neu trwy'r post at:

Strengthening police powers to tackle unauthorised encampments consultation
Police Powers Unit
Home Office
6th floor, Fry Building
Home Office
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

E-bost:

UnauthorisedEncampmentsConsultation@homeoffice.gov.uk

Cysylltwch â'r Uned Grymoedd yr Heddlu (fel uchod) os oes arnoch angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall megis Braille, print bras, sain neu iaith arall. Ni allwn ddadansoddi ymatebion na fydd wedi eu cyflwyno yn y ffurfiau a ddarperir.

Papur ymateb:

Bydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn <https://www.gov.uk/search/policy-papers-and-consultations>

Cynnwys

1. Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref	5
2. Crynodeb gweithredol	6
3. Cyflwyniad	7
4. Y cynigion	9
5. Amdanoch chi	19
6. Manylion cyswllt a sut i ymateb	20
7. Effaith y Cynigion	22
8. Cwestiynau'r Ymgynghoriad	24
9. Egwyddorion yr ymgynghoriad	27

1. Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref

Rydym yn ffodus i fod yn byw yn un o'r gwledydd mwyaf goddefgar yn y byd, sydd â thraddodiad balch o hyrwyddo parch i reolaeth y gyfraith, i eiddo ac i'n gilydd. Mae'r Llywodraeth hon yn ymroddedig i greu gwlad deg a chyfiawn, lle mae cyfartaledd cyfle yn ffynnu a chyfleoedd pawb mewn bywyd yn cael eu cryfhau. Rwy'n glir bod raid i hyn gael ei adeiladu ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd a rennir.

Yn Ebrill 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar effeithiolrwydd gorfodi yn erbyn datblygiadau a gwerylloedd heb ganiatâd. Roedd yn ceisio barn gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lluoedd heddlu, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ar raddfa'r broblem, a ellid defnyddio'r grymoedd sy'n bodoli yn fwy effeithlon ac a oedd angen unrhyw rymoedd ychwanegol.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddodd fy rhagflaenydd, y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, y byddai'r Llywodraeth yn edrych i ddiwygio adrannau 61 a 62A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i ostwng y meini prawf sy'n rhaid eu cyrraedd i'r heddlu allu cyfeirio pobl i ffwrdd oddi ar safleoedd heb ganiatâd.

Cadarnhaodd hefyd y byddai swyddogion y Swyddfa Gartref yn adolygu sut y gallai'r Llywodraeth hon droseddoli'r weithred o dresmasu wrth osod gweryll heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr, gan ddysgu oddi wrth y ddeddfwriaeth dresmasu sy'n bodoli yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn nodi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw, yn gwneud cynigion i newid ac yn ceisio cael barn ar y cynigion hynny.

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar a fyddai troseddoli gwerylloedd heb ganiatâd yn well na'r diwygiadau a gynigwyd yn wreiddiol i'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, ac os felly, sut y dylai weithio. Mae'n nodi pecyn arfaethedig o gamau mewn peth manylder, yn ogystal â rhai cwestiynau mwy cyffredinol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i leiafrif sylweddol o Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n parhau i deithio. Nod trosfwaol y Llywodraeth yw sicrhau triniaeth deg a chyfartal i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mewn modd sy'n hwyluso eu ffordd draddodiadol a chrwydrol o fyw gan barchu buddiannau'r gymuned ehangach. Ym Mehefin eleni cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn arwain ar ddatblygu strategaeth ar draws y llywodraeth i wella deilliannau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.



Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS

Ysgrifennydd Cartref

2. Crynodeb gweithredol

Hoffem ymgynghori ar gamau i;

- Droseddoli'r weithred o dresmasu wrth osod gweryll heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr.

Byddem hefyd yn hoffi ymgynghori ar y dull gwahanol canlynol o ymdrin â'r mater hwn:

- Diwygio adran 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i ganiatáu i'r heddlu gyfeirio tresmaswyr i safleoedd addas gyda chaniatâd sydd yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.
- Diwygio adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i gynyddu'r cyfnod o amser pan na fyddai tresmaswyr wedi cael eu cyfeirio o dir yn gallu dychwelyd iddo o 3 mis i 12 mis.
- Diwygio adran 61 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i leihau'r nifer o gerbydau y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o wersyll heb ganiatâd cyn y gall yr heddlu arfer eu grymoedd o chwech i ddau neu fwy o gerbydau.
- Diwygio adran 61 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i alluogi'r heddlu i symud tresmaswyr oddi ar dir sy'n rhan o'r briffordd.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor hyd 05/03/2020; nodir manylion sut i ymateb tua dechrau'r ddogfen hon.

3. Cyflwyniad

Mae mwyafrif helaeth y cymunedau teithiol yn byw mewn carafanau ar safleoedd teithwyr gyda chaniatâd. Yn wir, o'r 23,726 o garafanau yng Nghymru a Lloegr yng Ngorffennaf 2018, dim ond 1049 (4.4%) oedd ar safleoedd heb ganiatâd nad oedd yn eiddo i'r deiliaid. Ond, bu pryderon ers amser maith am effaith anghymesur y gwerysilloedd heb ganiatâd yma, lle mae gofid sylweddol wedi cael ei achosi i gymunedau lleol a lle mae awdurdodau lleol wedyn wedi gorfod ymdrin ag amrywiaeth o broblemau.

Wrth gydnabod y pryderon yma, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad yn Ebrill 2018 ar effeithiolrwydd gorfodi yn erbyn datblygiadau a gwerysilloedd heb ganiatâd. Trwy'r ymgynghoriad hwnnw, roeddem yn ceisio barn gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lluoedd heddlu, cymunedau teithiol a'r cyhoedd yn gyffredinol i gasglu a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i sicrhau y gall y grymoedd sy'n bodoli gael eu defnyddio yn fwy effeithiol ac a oes angen grymoedd ychwanegol. Fe'i harweiniwyd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir¹, gan awgrymu bod problemau sylweddol yn cael eu hachosi gan lawer o wersylloedd heb ganiatâd. Roedd yr ymatebion yn amlygu'r ymdeimlad o anesmwythyd a bygythiad y mae preswylwyr yn ei deimlo pan fydd gwerysill heb ganiatâd yn digwydd, y rhwystredigaeth o fethu a gallu cael mynediad at gyfleusterau, tir cyhoeddus a safleoedd busnes, a'r gwastraff a'r gost sy'n cael eu gadael ar ôl i'r gwerysill symud ymlaen.

Mae'r Senedd eisoes wedi rhoi grymoedd a dyletswyddau sylweddol i awdurdodau lleol a'r heddlu a ddyluniwyd i'w helpu i reoli effaith gwerysilloedd heb ganiatâd ar gymunedau lleol, gan gynnwys grymoedd awdurdodau lleol a'r heddlu yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Ond, clywodd y Llywodraeth dystiolaeth rymus, mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, bod angen grymoedd cryfach i allu ymdrin â'r problemau a'r pryderon a godwyd.

Dyna pam, yn Chwefror 2019, y cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol y bydd y Llywodraeth yncyhoeddi ymgynghoriad pellach ar ymestyn grymoedd yr heddlu trwy wneud cyfres o ddiwygiadau i adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994. Byddai'r diwygiadau hyn yn gadael i'r heddlu gyfeirio tresmaswyr at safleoedd eraill addas yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos (yn ogystal â'r awdurdod yr oedd y gwerysill presennol o fewn ei ardal); i gynyddu'r cyfnod o amser na fyddai tresmaswyr sydd wedi cael cyfarwyddyd i adael tir yn gallu dychwelyd iddo o dri i ddeuddeng mis; i ostwng y nifer o gerbydau sydd angen iddynt fod yn rhan o wersyll heb ganiatâd cyn y gall grymoedd yr heddlu gael eu harfer o chwech i ddau gerbyd; ac i alluogi'r heddlu i symud tresmaswyr o'r tir sy'n rhan o'r briffordd.

¹ <https://www.gov.uk/government/consultations/powers-for-dealing-with-unauthorised-development-and-encampments>

Clywodd y Llywodraeth hefyd ddadleuon y dylai Cymru a Lloegr ddilyn y 'model Gwyddelig' fel y'i gelwir ar gyfer ymdrin â gwersylloedd heb ganiatâd. Mae'r dull hwn yn troseddoli tresmasu mewn rhai amgylchiadau. Dangosodd yr ymatebion i'n hymgyngoriad bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r Llywodraeth ystyried troseddoli gwersylloedd heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr, trwy greu trosedd o dresmasu wrth sefydlu gwersyll heb ganiatâd.

Dyna pam y cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol y byddai swyddogion y Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad o sut y gallai'r Llywodraeth hon droseddoli'r weithred o dresmasu wrth osod gwersyll heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr, gan ddysgu oddi wrth y ddeddfwriaeth dresmasu sy'n bodoli yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Ar ôl ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, hoffem brofi'r awch i symud ymhellach ac ehangu'r categorïau presennol o dresmasu troseddol i gynnwys tresmaswyr ar dir sydd yno at y diben o breswyllo yn eu cerbyd am unrhyw gyfnod, ac i roi'r grymoedd perthnasol i'r heddlu i arestio troseddwyr yn y fan a'r lle ac atafaelu unrhyw gerbydau neu eiddo arall ar wersylloedd heb ganiatâd sy'n bodoli (neu'r rhai sydd yn y broses o gael eu gosod) ar unwaith.

Rydym felly yn ymgynghori ar sut ac a ddylid gwneud sefydlu neu fyw ar wersyll heb ganiatâd yn drosedd, yn ogystal â cheisio barn ar y newidiadau a gynigiwyd o'r blaen i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i ostwng y meini prawf sy'n rhaid eu cyrraedd i'r heddlu allu cyfeirio pobl i ffwrdd oddi ar safleoedd heb ganiatâd, y gellid ei gyflwyno fel dewis gwahanol i droseddoli.

4. Y cynigion

Mae'r bennod hon yn nodi'r dewisiadau i ymestyn grymoedd yr heddlu i daclo gwerylloedd heb ganiatâd, gan gynnwys creu trosedd o dresmasu wrth sefydlu gweryll heb awdurdod, yn ogystal â chamau eraill i ymestyn grymoedd yr heddlu i gyfeirio tresmaswyr, sydd â'r bwriad o fyw yno, i adael darn o dir.

4.1 Troseddoli Gwerylloedd Heb Ganiatâd

Trwy ymgynghoriad y Llywodraeth ar effeithiolrwydd gorfodi yn erbyn datblygiadau a gwerylloedd heb ganiatâd, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn credu y dylem ystyried troseddoli gwerylloedd heb ganiatâd, fel sydd wedi digwydd yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae trosedd debyg yn bodoli yn yr Alban hefyd.

Tresmasu troseddol a darparu safleoedd: Gweriniaeth Iwerddon

Mae Llywodraeth Iwerddon wedi troseddoli tresmasu dan rai amgylchiadau, ar y cyd â gofyn statudol i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd i deithwyr. Wrth ymateb i bryderon am dresmaswyr yn meddiannu mannau cyhoeddus a thir preifat, cyflwynodd Gweriniaeth Iwerddon Ddeddf Tai (Darpariaethau Amrywiol) 2002² (y Ddeddf).

Gwnaeth y Ddeddf hi'n drosedd pan fydd unrhyw unigolyn yn mynd i mewn i dir a'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog- neu ddwyn unrhyw "wrthrych" ar y tir - os yw hyn yn debygol o greu "difrod sylweddol" i'r tir neu ymyrryd ag o.

Mae'r drosedd sydd yn Adran 24 o'r Ddeddf yn cael yr effaith o droseddoli tresmaswyr sy'n meddiannu tir heb ganiatâd. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfateb â gwaharddiad ar bob gweryll heb ganiatâd. Mae'n troseddoli gwerylloedd sy'n difrodi'r tir yn 'sylweddol' neu yn atal y perchennog neu ddefnyddwyr cyfreithlon eraill rhag ei ddefnyddio.

Mae'r Ddeddf yn rhoi disgrisiwn i heddlu Iwerddon roi cyfarwyddyd i dresmaswyr adael tir os oes amheuaeth bod y drosedd hon yn cael ei chyflawni. Gellir cosbi peidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd hefyd trwy ddirwy a/neu ddeddfryd o garchar am fis. Yr heddlu ddylai ystyried pa ddull i'w fabwysiadu gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos a'r gweryll.

Yr Alban: Tresmasu troseddol

Dan Ddeddf Tresmasu (Yr Alban) 1865, mae'n drosedd meddiannu tir preifat heb ganiatâd y perchennog tir³

² <http://www.irishstatutebook.ie/eli/2002/act/9/section/24/enacted/en/html#sec24b>

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Vict/28-29/56>

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn 2018 yn ystyried y byddai troseddoli gwersylloedd heb ganiatâd yn gweithredu fel rhwystr i wersylloedd yn y dyfodol ac yn gadael i'r heddlu orfodi symud y tresmaswyr mewn modd mwy prydlon. Roedd y manteision yn cael eu gweld fel rhai ariannol o ran cost troi tresmaswyr allan a chostau glanhau.

Hoffem gasglu barn ar ehangu'r categorïau presennol o dresmasu troseddol.

Gallai'r Llywodraeth ei gwneud yn drosedd mynd i mewn i dir neu ei feddiannu yn amodol ar fodloni rhai amodau. Byddem yn croesawu eich barn ar ba amodau y dylid eu gosod a'r trothwy ar gyfer y drosedd hon. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon mae'n drosedd mynd i mewn i dir neu ei feddiannu heb ganiatâd y tiffeddiannwr neu ddwyn "gwrthrych" ar y tir - os yw hyn yn debygol o achosi "difrod sylweddol". Bydd gosod amodau fel yr angen i ofyn am brawf bod difrod neu niwed wedi eu hachosi yn helpu i gyfyngu ar yr erlyniadau i achosion lle mae elfen o anhrefn gyhoeddus lle mae budd i ddiogelu ac adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng hawliau'r tir feddiannwr i fwynhau ei eiddo yn heddychlun a hawliau'r teithwyr i breifatrwydd a bywyd teuluol.

Cwestiwn

C1: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai mynd ar dir heb ganiatâd y tiffeddiannwr gan wybod hynny gael ei wneud yn drosedd os yw hynny er mwyn preswyllo ar y tir?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Cwestiwn

C2: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond mynd ar dir heb ganiatâd y tiffeddiannwr gan wybod hynny er mwyn preswyllo ar y tir hwnnw gyda cherbydau ddylai gael ei wneud yn drosedd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Gallai'r Llywodraeth ei gwneud yn amod bod raid i'r tiffeddiannwr neu gynrychiolwyr y tiffeddiannwr gymryd camau rhesymol i ofyn i dresmaswyr adael. Gallai hynny helpu'r

heddlu i ddangos pan fydd tresmaswr yn tresmasu **gan wybod hynny**. Ond, ar rai achlysuron, gall tîrfeddiannwyr fod ag ofn mynd at dresmaswr.

Cwestiwn

C3: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r tîrfeddiannwr neu gynrychiolwyr y tîrfeddiannwr gymryd camau rhesymol i ofyn i unigolion sy'n meddiannu ei dir symud eu hunain a'u heiddo cyn y gall meddiannu'r tir gael ei ystyried yn drosedd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Cwestiwn

C4: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond pan fydd yr amodau canlynol wedi eu bodloni y bydd trosedd wedi ei chyflawni?

a) y gwersyll yn atal pobl sydd â hawl i ddefnyddio'r tir rhag ei ddefnyddio;

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

b) y gwersyll yn achosi neu yn debygol o achosi difrod i'r tir neu gyfleusterau;

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

c) y rhai yn y gwersyll wedi mynnu arian gan y tîrfeddiannwr i adael y tir; a/neu

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

d) y rhai sydd yn y gwersyll yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu yn debygol o fod.

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Cwestiwn

C5: Pa amodau eraill nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr uchod ddylem ni eu hystyried?

4.2 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Dan Adran 61 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, mae gan yr heddlu rymoedd sy'n gadael iddynt roi cyfarwyddyd i dresmaswyr adael tir. Ar hyn o bryd gofynion y grymoedd hynny yw:

- I. bod gan y tresmaswyr fwriad i breswyllo ar y tir am unrhyw gyfnod;
- II. bod y deiliad neu rywun ar ran y deiliad wedi cymryd camau rhesymol i ofyn i'r tresmaswyr adael;
- III. bod: naill ai (a)
 - unrhyw un o'r tresmaswyr wedi achosi difrod i dir neu eiddo; neu
 - bod unrhyw un o'r tresmaswyr wedi defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus tuag at y deiliad, aelod o deulu'r deiliad neu weithiwr neu asiant i'r deiliad;neu (b) bod gan y tresmaswyr rhyngddynt chwech neu fwy o gerbydau ar y tir.

Mae Adran 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn gadael i'r heddlu roi cyfarwyddyd i'r tresmaswyr symud eu hunain a'u cerbydau a'u heiddo oddi ar y tir y mae ganddynt fwriad i breswyllo arno pan fydd safle addas ar gael yn ardal yr un awdurdod lleol. Rhaid i'r heddlu ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae'r tir yn eu hardal i gadarnhau a oes safle addas ar gael ar safle perthnasol.

Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan yr heddlu a rhai awdurdodau lleol bod diffyg argaeledd safleoedd i deithwyr yn golygu nad ydynt yn gallu arfer rhai o'r grymoedd sydd ganddynt fel adran 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sy'n rhoi grym i symud tresmaswyr i safleoedd gwahanol sydd ar gael.

Byddem yn croesawu barn a ddylid diwygio adran 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i ganiatáu i'r heddlu gyfeirio tresmaswyr i safleoedd addas gyda chaniatâd sydd yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

Byddai ymestyn y grym hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y gallai'r heddlu weithredu pan fydd prinder safleoedd yn un ardal benodol. Ond, credwn y gallai newidiadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â:

- Chytundebau wedi eu gwneud rhwng awdurdodau lleol. Hysbysodd awdurdodau lleol ni y byddai defnyddio grym o'r fath heb gytundebau yn eu lle yn eu hatal rhag creu rhagor o safleoedd â chaniatâd. Byddai hyn yn wrthgynhyrchiol.
- Uchafswm o ran pellter y dylid cyfeirio'r tresmaswyr ar ei hyd. Mewn rhai ardaloedd gwledig, gallai safle yn ardal awdurdod lleol cyfagos fod sawl awr i ffwrdd mewn cerbyd. Gallai gael ei ystyried yn afresymol symud rhywun mor bell â hynny.

Cwestiwn

C6: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i gyfeirio tresmaswyr i safleoedd addas gyda chaniatâd yn ardal awdurdod lleol cyfagos?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

*Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda***C7:** A ddylai hyn fod yn amodol ar amodau yn ymwneud â chytundebau rhwng awdurdodau lleol?

C8: A ddylid cael uchafswm o ran pellter y gellid cyfeirio tresmaswr ar ei hyd?

Dylai / Na

Os dylai, pa bellter ddylai hynny fod?

C9: A ddylid cael unrhyw amodau eraill y dylid eu hystyried wrth gyfeirio tresmaswr ar draws awdurdodau cyfagos.

Dylid / Na

Os dylid, beth ddylai'r rhain fod?

Mae peidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd gan yr heddlu dan Adran 61 neu 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn drosedd y gellir ei chosbi trwy ddirwy a/neu ddedfryd o garchar am hyd at dri mis, fel y mae ail fynd ar y tir gan unigolion sy'n ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd cyn pen tri mis.

Awgrymodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad y dylid cynyddu'r cyfnod presennol o dri mis pan fydd tresmaswr yn cael ei wahardd rhag dychwelyd i leoliad ar ôl cael ei gyfeirio o'r safle gan yr heddlu.

Byddem yn croesawu barn a ddylid diwygio adrannau 61 a 62A i gynyddu'r cyfnod o amser pan na fyddai tresmaswyr wedi cael eu cyfeirio o dir yn gallu dychwelyd iddo o dri

mis i ddeuddeng mis. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddiogeliad i dir a dargedir gan yr un grŵp o dresmaswyr yn gyson.

Cwestiwn

C10: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu yn anghytuno y dylai'r amser na fyddai tresmaswyr sydd wedi cael cyfarwyddyd i adael tir yn cael dychwelyd iddo gael ei gynyddu o dri mis i ddeuddeng mis?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Mae Adran 61 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn rhoi'r grym i'r heddlu roi cyfarwyddyd i dresmaswyr adael os oes chwech neu fwy o gerbydau ar y tir y maent yn tresmasu arno. Ond, os oes llai na chwech o gerbydau yn bresennol, nid yw'r heddlu yn cael y grym i roi cyfarwyddyd i dresmaswyr adael.

Byddem yn croesawu barn a ddylid diwygio adran 61 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i leihau'r nifer o gerbydau y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o wersyll heb ganiatâd o chwech i ddau, cyn y gall yr heddlu arfer eu grymoedd. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfle i'r heddlu ymyrryd pan fydd gwersylloedd llai yn bodoli.

Cwestiwn

C11: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r nifer o gerbydau sydd angen iddynt fod yn rhan o wersyll heb ganiatâd cyn y gall grymoedd yr heddlu gael eu defnyddio gael ei ostwng o chwech i ddau gerbyd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Byddem yn croesawu barn a ddylid diwygio adran 61 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i alluogi'r heddlu i symud tresmaswyr oddi ar dir sy'n rhan o'r briffordd. Ar hyn o bryd mae'r heddlu yn cael eu cyfyngu wrth ymdrin â'r gwersylloedd hyn oni bai bod safle addas yn ardal yr un awdurdod lleol. Gall hyn ei gwneud hi'n haws i'r heddlu daclo gwersylloedd problemus.

Cwestiwn

C12: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i symud tresmaswyr oddi ar dir sy'n rhan o'r briffordd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Credwn y gallai rhoi grym i'r heddlu i atafaelu eiddo, gan gynnwys cerbydau alluogi'r heddlu i symud gwersylloedd heb ganiatâd yn gyflymach a gweithredu fel rhwystr i atal sefydlu gweryll heb ganiatâd. Byddem yn croesawu barn a ddylid rhoi grym i'r heddlu atafaelu eiddo oddi ar dresmaswyr a dan ba amgylchiadau y dylent gael y grymoedd hyn.

Cwestiwn

C13: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i atafaelu eiddo, gan gynnwys cerbydau, oddi ar dresmaswyr sydd ar dir gyda'r bwriad o breswyllo arno?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

C14: A ddylai'r heddlu allu atafaelu eiddo:

- i) Unrhyw un y maent yn ei amau o dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno;
- ii) Unrhyw un y maent yn ei arestio am dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno; neu
- iii) Unrhyw un a gollfernir am dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno?

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Fel y nodwyd yn gynharach, byddem yn rhagweld y byddai'r diwygiadau uchod i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn ddewis gwahanol i droseddoli gweryllloedd heb ganiatâd, yn hytrach nag yn ychwanegol at hynny.

Cwestiwn

C15: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r diwygiadau arfaethedig i adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sydd yn yr ymgynghoriad hwn yn gamau digonol i dacio'r problemau anhrefn cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gwersylloedd heb ganiatâd heb y gofyn ar gyfer cyflwyno grymoedd penodol sy'n troseddoli gwersylloedd heb ganiatâd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

4.3 Effeithiau ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Tra bydd heriau amlwg yn cael eu codi i gymunedau sefydlog gan wersylloedd heb ganiatâd, mae'n debygol iawn y gall gwersylloedd anghyfreithlon o'r fath arwain at galedi sylweddol i'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain.

Nod troswaol y Llywodraeth yw sicrhau triniaeth deg a chyfartal i deithwyr, mewn modd sy'n hwyluso eu ffordd draddodiadol a chrwydrol o fyw gan barchu buddiannau'r gymuned sefydlog. Felly byddem yn croesawu barn am unrhyw effeithiau niweidiol y gallai'r cynigion hyn eu cael ar y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Cwestiwn

C16: A ydych yn disgwyl i'r diwygiadau arfaethedig i adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sydd yn yr ymgynghoriad hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd neu ddeilliannau addysgol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Effaith gadarnhaol iawn / Effaith gadarnhaol / Effaith ddim yn gadarnhaol na negyddol / Effaith negyddol / Effaith negyddol iawn

Os felly, a oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon, a/neu awgrymiadau o ran beth y gellid ei wneud i liniaru neu atal unrhyw effeithiau negyddol?

Cwestiwn

C17: A ydych yn disgwyl i droseddoli gwersylloedd heb ganiatâd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd neu ddeilliannau addysgol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Effaith gadarnhaol iawn / Effaith gadarnhaol / Effaith ddim yn gadarnhaol na negyddol / Effaith negyddol / Effaith negyddol iawn

Os felly, a oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon, a/neu awgrymiadau o ran beth y gellid ei wneud i liniaru neu atal unrhyw effeithiau negyddol?

4.4 Sylwadau Eraill

Cwestiwn

C18: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar fater gwersylloedd heb ganiatâd nad ydynt yn cael eu trin yn benodol gan unrhyw un o'r cwestiynau uchod?

5. Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

C19: Enw llawn	
C20: Teitl swydd neu yn rhinwedd beth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd)	
C21: Dyddiad	
C22: Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol)	
C23: Cyfeiriad	
C24: Cod post	
C25: Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch	(ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon cydnabyddiaeth iddo, os yn wahanol i'r uchod	

C26: Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

6. Manylion cyswllt a sut i ymateb

Ymatebwch trwy ddefnyddio'r system ar-lein sydd ar gael yn:

www.gov.uk/government/consultations/strengthening-police-powers-to-tackle-unauthorised-encampments

Cyflwynwch eich ymateb erbyn 05/03/2020

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod chi'n defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon trwy e-bost neu trwy'r post at:

Strengthening police powers to tackle unauthorised encampments consultation
Police Powers Unit
Home Office
6th Floor NW, Fry Building
Home Office
2 Marsham Street
LONDON
SW1P 4DF

E-bost: UnauthorisedEncampmentsConsultation@homeoffice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael ar-lein hefyd yn www.gov.uk/government/consultations/strengthening-police-powers-to-tackle-unauthorised-encampments

Gellir gofyn am fersiynau ar ffurfiau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn o:

UnauthorisedEncampmentsConsultation@homeoffice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ymhen [rhowch y dyddiad cyhoeddi, a ddylai fod cyn belled ag y mae'n bosibl o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad] mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn www.gov.uk/government/consultations/strengthening-police-powers-to-tackle-unauthorised-encampments

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Gall unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynndo ei hun, yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd parti.

7. Effaith y Cynigion

Asesiad Effaith

Yn unol â'r Llawlyfr Fframwaith Rheoleiddio Gwell a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)⁴, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o effeithiau'r cynigion hyn ac ni ragwelir unrhyw effaith ariannol perthnasol ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol. Disgwylir i'r effaith ar y sector cyhoeddus, fel yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fod yn gymharol fychan.

Datganiad Cydraddoldeb

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion ac Adrannau, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'ystyriaeth ddyledus' i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon dan Ddeddf 2010, hybu cydraddoldeb cyfle rhwng gwahanol grwpiau a meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.

Yn unol â'r dyletswyddau hyn, rydym wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar y rhai sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir er mwyn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r materion a grybwyllir uchod.

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon

Mae'r gymuned o Deithwyr yn cynnwys Sipsiwn Romani a Theithwyr o Loegr, yr Alban, Cymru ac Iwerddon ac maent yn cael eu cydnabod fel grwpiau ethnig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym yn cydnabod y gall y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon gael effaith niweidiol ar rai aelodau o'r grŵp lleiafrifol hwn. Yn wir, wrth ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol, dywedodd rhai grwpiau hawliau dynol a sefydliadau cyfreithiol wrthym y byddai troseddoli tresmasu yn ymateb anghymesur a fyddai'n cael effaith ar eu ffordd o fyw. Ond, rydym hefyd yn cydnabod y gofid y mae cymunedau lleol a busnesau yn ei wynebu o ganlyniad i wersylloedd heb ganiatâd. Er ein bod yn cydnabod nad yw pob gwersyll heb ganiatâd yn amharu ac yn effeithio ar gymunedau, mae tystiolaeth sy'n dangos, pan fydd hyn yn wir, bod y costau ariannol sy'n disgyn ar berchenogion tir i droi pobl oddi ar eu tir ac i glirio safleoedd ynghyd â'r effaith ar y gymuned yn gallu bod yn sylweddol.

Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio barn ar y cynigion ac unrhyw gamau i'w lliniaru i gyfyngu ar unrhyw effaith anghymesur ar y gymuned o Deithwyr, yn ogystal ag unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar nodweddion eraill a ddiogelir, fel anabledd. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ddyletswydd parhaus a fydd yn cael ei adolygu yn gyson wrth i ni ddatblygu'r polisi.

⁴ Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/better-regulation-framework-manual>

Hybu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol

Rydym yn cydnabod hawliau Sipsiwn Romani a Theithwyr o Loegr, yr Alban, Cymru ac Iwerddon i ddilyn ffordd grwydrol o fyw yn unol â'u traddodiad.

Mae mwyafrif llethol y gymuned o Deithwyr, a amcangyfrifir i fod yn 80%, yn byw mewn carafanau gan aros ar safleoedd cyhoeddus a phreifat parhaol sydd â chaniatâd cynllunio, neu mewn preswylfeydd o frics a mortar. Mae lleiafrif bychan o garafanau Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu galw yn rhai heb ganiatâd yn rhai sy'n aros mewn un ardal ac sy'n debygol o fod ar restrau aros tai awdurdod lleol, yn rhai sy'n teithio yn dymhorol i gael gwaith a nifer fechan iawn sy'n teithio ar draws y wlad.

Nod troswaol y Llywodraeth yw sicrhau triniaeth deg a chyfartal i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mewn modd sy'n hwyluso eu ffordd draddodiadol a chrwydrol o fyw gan barchu buddiannau'r gymuned ehangach. Ym Mehefin eleni cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn arwain ar ddatblygu strategaeth traws-lywodraethol i wella deilliannau mewn meysydd fel iechyd, addysg a gwaith i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio barn ar yr holl gynigion ac unrhyw gamau lliniaru i gyfyngu ar unrhyw effaith anghymesur ar y gymuned o Deithwyr.

Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol

Mae'n bosibl y gallai'r camau hyn arwain at ostyngiad mewn gweryslyoedd heb ganiatâd, a allai yn ei dro wella cysylltiadau. Ar y llaw arall, mae hefyd yn bosibl y gallai sylw i'r camau hyn gryfhau rhagfarn yn erbyn Teithwyr, hyd yn oed y rhai sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio barn ar yr holl gynigion ac unrhyw gamau lliniaru i gyfyngu ar unrhyw effaith anghymesur ar y gymuned o Deithwyr.

8. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C1. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai mynd ar dir heb ganiatâd y tiffeddiannwr gan wybod hynny gael ei wneud yn drosedd os yw er mwyn preswyllo ar y tir?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C2. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond mynd ar dir heb ganiatâd y tiffeddiannwr gan wybod hynny er mwyn preswyllo ar y tir hwnnw gyda cherbydau ddylai gael ei wneud yn drosedd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C3. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r tiffeddiannwr neu gynrychiolwyr y tiffeddiannwr gymryd camau rhesymol i ofyn i unigolion sy'n meddiannu ei dir i symud eu hunain a'u heiddo cyn y gall meddiannu'r tir gael ei ystyried yn drosedd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C4. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond pan fydd yr amodau canlynol wedi eu bodloni y bydd trosedd wedi ei chyflawni?

a) y gwersyll yn atal pobl sydd â hawl i ddefnyddio'r tir rhag ei ddefnyddio;

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

b) y gwersyll yn achosi neu yn debygol o achosi difrod i'r tir neu gyfleusterau;

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

c) y rhai yn y gwersyll wedi mynnu arian gan y tiffeddiannwr i adael y tir; a/neu

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

d) y rhai sydd yn y gwersyll yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu yn debygol o fod.

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C5. Pa amodau eraill nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr uchod ddylem ni eu hystyried?

C6. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i gyfeirio tresmaswyr i safleoedd addas gyda chaniatâd yn ardal awdurdod lleol cyfagos?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C7: A ddylai hyn fod yn amodol ar amodau yn ymwneud â chytundebau rhwng awdurdodau lleol?

C8: A ddylid cael uchafswm o ran pellter y gellid cyfeirio tresmaswr ar ei hyd?

Dylid / Na

Os dylid, pa bellter ddylai hynny fod?

C9: A ddylid cael unrhyw amodau eraill y dylid eu hystyried wrth gyfeirio tresmaswr ar draws awdurdodau cyfagos. Os dylid, beth ddylai'r rhain fod?

Dylid / Na

Os dylid, beth ddylai'r rhain fod?

C10. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amser na fyddai tresmaswyr sydd wedi cael cyfarwyddyd i adael tir yn cael dychwelyd iddo gael ei gynyddu o 3 mis i 12 mis?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C11. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r nifer o gerbydau sydd angen iddynt fod yn rhan o wersyll heb ganiatâd cyn y gall grymoedd yr heddlu gael eu defnyddio gael ei ostwng o chwech i ddau gerbyd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C12. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i symud tresmaswyr oddi ar dir sy'n rhan o'r briffordd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C13: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r heddlu gael y grym i atafaelu eiddo, gan gynnwys cerbydau, oddi ar dresmaswyr sydd ar dir gyda'r bwriad o breswyllo arno?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C14: A ddylai'r heddlu allu atafaelu eiddo:

- i) Unrhyw un y maent yn ei amau o dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno;

- ii) Unrhyw un y maent yn ei arestio am dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno; neu
- iii) Unrhyw un a gollfernir am dresmasu ar dir gyda'r diben o breswyllo arno?

C15. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r diwygiadau arfaethedig i adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sydd yn yr ymgynghoriad hwn yn gamau digonol i dacio'r problemau anhrefn cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gwersylloedd heb ganiatâd heb y gofyn ar gyfer cyflwyno grymoedd penodol sy'n troseddoli gwersylloedd heb ganiatâd?

Cytuno'n bendant / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n bendant

C16. A ydych yn disgwyl i'r diwygiadau arfaethedig i adrannau 61 a 62A Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sydd yn yr ymgynghoriad hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd neu ddeilliannau addysgol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr? Os felly, a oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon, a/neu awgrymiadau o ran beth y gellid ei wneud i liniaru neu atal unrhyw effeithiau negyddol?

Effaith gadarnhaol iawn / Effaith gadarnhaol / Effaith ddim yn gadarnhaol na negyddol / Effaith negyddol / Effaith negyddol iawn

C17. A ydych yn disgwyl i droseddoli gwersylloedd heb ganiatâd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd neu ddeilliannau addysgol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr? Os felly, a oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon, a/neu awgrymiadau o ran beth y gellid ei wneud i liniaru neu atal unrhyw effeithiau negyddol?

Effaith gadarnhaol iawn / Effaith gadarnhaol / Effaith ddim yn gadarnhaol na negyddol / Effaith negyddol / Effaith negyddol iawn

C18. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar fater gwersylloedd heb ganiatâd nad ydynt yn cael eu trin yn benodol gan unrhyw un o'r cwestiynau uchod?

9. Egwyddorion yr ymgynghoriad

Nodir yr egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/consultations/strengthening-police-powers-to-tackle-unauthorised-encampments

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk.